5. DWYSAN Y DDEILEN
(Hydref)

Un tro roedd deilen o'r enw Dwysan. Cafodd ei henwi'n Dwysan oherwydd ei bod wastad mor ddwys a digalon – fel petai hi ar fin cwympo oddi ar y goeden unrhyw funud. Roedd ei holl ffrindiau eisoes wedi syrthio. Cawsant eu hysgubo i ffwrdd gan y garddwr a'u llosgi mewn coelcerth enfawr. Dwysan oedd y ddeilen olaf un ar y goeden a theimlai'n unig iawn.

'O! mae gen i hiraeth am fy ffrindiau,' ochneidiodd. 'O na fyddai gen i rywun i sgwrsio â mi!'

Ceisiodd daro sgwrs â'r brigau. Ond doedd fawr o bwrpas.

'Bydd ddistaw, Ddeilen wirion,' oedd eu hymateb. 'Ryden ni wrthi'n gwneud cynlluniau at y gwanwyn nesaf. Rydyn ni'n rhy brysur i siarad hefo ti.'

Felly ceisiodd sgwrsio â'r canghennau. Ond doedd hynny fawr gwell 'chwaith.

'Paid â thorri ar ein traws, Dwysan,' meddent. 'Rydyn ni wrthi'n penderfynu faint o frigau allwn ni eu cynnal y flwyddyn nesaf.'

Rhoddodd gynnig ar siarad â'r hen foncyff hyd yn oed.

'Oes gen ti unrhyw syniad mor galed dwi'n gweithio i gael maeth o'r pridd?' cwynodd y boncyff. 'Y cwbl sydd arna i eisiau yn yr

hydref yw ychydig o heddwch a llonydd.'

Doedd gan neb amser i sgwrsio â Dwysan.

Rhaid oedd iddi hongian ar y goeden yn drist heb ddim i'w wneud a heb neb i sgwrsio â hwy.

Ac yna fe ddigwyddodd – clywodd sŵn anadl, a murmur isel:

'Pam na siaradi di hefo fi?' meddai llais.

Y gwynt ydoedd.

'Ond . . . ond . . . fedra i ddim siarad hefo *ti*! Crynai Dwysan. All deilen ddim sgwrsio â'r gwynt aruthrol.'

'Pam lai?' meddai'r gwynt.

'Oherwydd . . . wel . . . oherwydd nad ydw i'n ddigon clyfar. Fyddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddweud.'

'Pwy ddywedodd nad wyt ti'n glyfar?' suodd y gwynt. 'Gwranda arnaf fi, Dwysan. Ti'n gwybod mwy nag rwyt ti'n sylweddoli.' A gyda'r geiriau hyn ymadawodd y gwynt.

Er na pharhaodd y sgwrs ond ychydig eiliadau, teimlai Dwysan yn llawer hapusach.

A dweud y gwir roedd mor hapus nes iddi ddechrau mwmian canu. 'Dwi'n gwybod mwy nag ro'n i'n feddwl, ffa–la–la. Dwi'n gwybod mwy nag ro'n i'n feddwl, ffa–la–la.'

'Bydd ddistaw, Ddeilen wirion!' gwaeddodd yr holl frigau a changhennau.

'Mae'n arw gen i, ffa–la–la. Does gen i ddim help, ffa–la–la. Dwi'n hapus!'

'Dyw hapusrwydd ddim yn esgus dros fod yn swnllyd,' meddai'r hen foncyff yn gysglyd. 'Yn enwedig pan nad oes gen ti ddim rheswm i fod yn hapus.'

'O, ond mae gen i reswm. Dwi newydd ddarganfod rhywbeth. Dwi'n gwybod mwy nag ro'n i wedi sylweddoli.'

'Dwyt ti'n gwybod dim,' cyfarthodd yr hen foncyff. 'Mae brigyn yn gwybod rhywbeth oherwydd fe ŵyr sut i dyfu dail. Fedri di dyfu dail?'

'Na,' meddai Dwysan.

'Mae cangen yn gwybod rhywbeth oherwydd fe ŵyr sut i gynnal brigau. Fedri di gynnal brigau?'

'Na,' meddai Dwysan.

‘Mae boncyff yn gwybod rhywbeth oherwydd fe ŵyr sut i sugno maeth o’r pridd. Fedri di wneud hynny?’

‘Na,’ meddai Dwysan.

‘Wel dyna ni felly!’ cyhoeddodd y boncyff. ‘Ti’n gweld, Dwysan, rwyt ti’n dwp. Dwyt ti’n gwybod dim byd.’

‘Clywch, clywch!’ bloeddiodd y brigau a’r canghennau.

‘Ond . . . ond fe ddywedodd y gwynt wrtha i . . .’ baglodd Dwysan dros ei geiriau.

Pan glywodd enw’r gwynt yn cael ei grybwyll collodd yr hen foncyff ei dymer.

‘Rhag cywilydd i ti! Pa hawl sydd gen ti i ddweud y fath beth! Mae’r gwynt yn rym nerthol a mawreddog a gaiff ei barchu a’i ofni gan goed dirifedi mewn gerddi ledled y wlad. Mae’n peri i’r ddaear grynu ac yn symud y nen. Nid yw’n siarad. Na. Rwyt ti nid yn unig yn anwybodus, Ddeilen, ond yn waeth na hynny, rwyt ti’n gelwyddog.’

‘Hen Ddeilen gelwyddog ffôl!’ llefai’r holl frigau a changhennau.

‘Dwyt ti’n ddim mwy na hen swnen boenus. Pam na wnei di gwympo oddi ar y goeden?’

Roedd pob defnyn o hapusrwydd wedi ei sugno o wythiennau Dwysan. Crebachodd ac aeth yn llipa trwyddi.

‘O’r gorau,’ meddai. ‘Fe wna i.’

A gollyngodd ei gafael.

Daeth pwff o wynt. Cyn iddi gael amser i feddwl cafodd Dwysan ei chodi i fyny ac i fyny i’r awyr. Roedd fel bod yn y ffair. I ddechrau, cafodd dro ar yr olwyn fawr. Yna ar yr hyrddiwr. Ac yna’r chwyrligwgan.

‘Wyt ti’n mwynhau hyn?’ holodd y gwynt.

‘Mae’n grêt!’ llefodd Dwysan. ‘Ond allwn ni stopio – dim ond am eiliad? Mae gen i rywbeth i’w ofyn . . .’

‘Dos yn dy flaen. Dwi’n gwrando,’ meddai’r gwynt wrth ostegu.

‘Wel . . . ym . . . mae ’na rywbeth yn peri penbleth i mi. Dwi wastad wedi teimlo’n anwybodus. Wedi’r cyfan, dwi’n methu tyfu dail na chynnal brigau na sugno maeth o’r pridd. Felly yr hyn dwi angen ateb iddo yw – be yn union dwi *yn* wybod?’

‘Tyrd yn dy flaen, Dwysan. Wyt ti heb ddyfalu eto?’ gwenodd y

gwynt. ‘Fe roddaf i gliw i ti. Nid yr hyn rwyt ti’n wybod . . . ond pwy rwyt ti’n adnabod . . . ’

‘Nid yr hyn dwi’n wybod . . . ond pwy dwi’n adnabod. Hei, aros funud . . . dwi’n eich adnabod CHI! Ac mae gwybod amdanoch chi’n ddigon.’

‘Yn union.’ A gyda rhuad aruthrol cipiodd y gwynt Dwysan yn uchel i’r awyr, a chwyrlïodd y ddau i ffwrdd gyda’i gilydd.

HYD: 4 munud. Gall y stori hon weithio’n dda fel meim. Bydd angen dau berson i chwarae rhannau’r gwynt a’r goeden. (Deilen bapur fawr yw Dwysan a chanddi wyneb hapus ar un ochr ac wyneb trist ar yr ochr arall.)

NEGES: Mae Duw am i ni ei adnabod nid yn unig fel ein Creawdwr ond fel ein Ffrind.

DARLLEN: Jeremeia 9: 23–24